# 22. Y CANWRIAD

**Darllen:** Marc 15: 39

Roedd y milwyr ar Golgotha o dan awdurdod canwriad. Milwr profiadol oedd y dyn hwn, wedi bod mewn brwydrau niferus, gan weld llawer o ddynion, cymrodyr a gelynion, yn marw. Rhaid ei fod hefyd yn gyfarwydd â gweld dynion yn cael eu cam-drin neu eu harteithio, a'u croeshoelio hefyd. Ond ni welodd neb ddyn tebyg i'r dyn ar y groes ganol erioed o'r blaen. Ar ôl iddo wylio croeshoeliad y dyn yn y canol, dywedodd: '*Yn wir. Mab Duw oedd y dyn hwn.'* Beth a olygodd y canwriad wrth ddweud hyn, nis gwn, ond siaradodd ar ran holl deulu'r Ffydd, os oedd ef yn deall ai peidio. Onid oes gan y groes neges sy'n cyrraedd yn syth i'r galon? Mae ein hoes ni yn gyfarwydd iawn â dioddefaint neu â lluniau o ddioddefaint ar y teledu; oni ddylai fod yn barod i glywed neges y groes hon gan hynny, dim ond iddo gael ei gyflwyno trwy fywyd ac ymagwedd gweision Crist dan arweiniad ei Ysbryd ef?

Yn y pellter, safodd 'y gwragedd', ffyddloniaid torcalonnus, trist, dryslyd. Ond, yno y maent, er bod deg o'r Deuddeg dyn yn absennol. Lle nad oedd meddwl amgyffred, arhosodd y galon yn ffyddlon. '*Y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn*.' (I Ioan 4: 18).

'*A dyma len y Deml yn rhwygo yn ddwy o'r pen i'r gwaelod'* (Mathew 27: 51). Hon oedd y llen yn gwahanu'r Sancteiddiolaf Le oddi wrth weddill y Deml. Yn ôl yr hanesydd Iddewig, Joseffws, roedd ei uchder yn drigain troedfedd, a'i ddefnydd yn hardd a thrwchus. Dysgwyd y bobl mai trigfan Duw ar y ddaear oedd y Sancteiddiolaf Le. Dim ond un dyn, yr archoffeiriad ei hun, oedd â'r hawl i fynd i mewn yno, a hynny unwaith y flwyddyn yn unig, sef ar Ddydd y Cymod. Gan fod y llen wedi ei rhwygo, yr oedd yn bosibl i unrhyw un edrych i mewn yno a gweld dim ond gwacter. Symudodd trigfan Duw allan o'r Deml ar Fynydd Seion at gorff dynol eiddil, yn marw ar groes ar fryn y tu allan i fur y dref. Nes ymlaen, symudodd eto at gorff dynol arall ar y ddaear, sef Eglwys Iesu Grist, i fyw ynddi, i lefaru a gweithio a dioddef a marw, ac atgyfodi trwyddi ymhob oes ac ymhob lle, i arwain ei blant i fynd yn ei gwmni ar daith adref at ei Dad ef a'u Tad hwythau.

**Gweddi:**
*Drugarocaf Dduw,*
*a waredaist ac a achubaist y byd,*
*drwy farwolaeth ac atgyfodiad dy Fab Iesu Grist;*
*caniatâ i ni, drwy ein ffydd yn yr hwn a ddioddefodd ar y groes,*
*orfoleddu yn nerth ei fuddugoliaeth;*
*drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.*